



Ymgynghoriad ardrefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol

**Adroddiad Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Gorffennaf 2014

Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

Aelodau'r Bwrdd

Sandy Blair CBE (Cadeirydd)

Mary Carter

Stuart Castledine

Yr Athro Monojit Chatterji

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

Gareth Price, Clerc

Dan Collier, Dirprwy Glerc

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliadcymru.org
Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8566

Ffacs: 029 2089 8117

E-bost: Taliadau@cymru.gov.uk

Rhagair y Cadeirydd

Y ddogfen hon yw cam nesaf ein hymgyngoriad ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Cymerwyd yr ymatebion hynny i ystyriaeth wrth lunio'r cynigion amgaeedig, ac rydym yn gwahodd sylwadau gan Aelodau Cynulliad unigol, grwpiau plaid, ymddiriedolwyr y cynllun cyfredol, a'r cyhoedd. Os bydd unrhyw ymholiadau gan yr Aelodau yr hoffent eu trafod yn fanwl â ni, dylid cysylltu â Chlerc y Bwrdd.

Pan fyddwn wedi ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn llunio ein cynllun terfynol, felly anogir yr Aelodau i achub ar y cyfle hwn i fynegi eu safbwyntiau wrthym. Bydd trefniadau pensiwn newydd ar waith o ddechrau'r Cynulliad nesaf, ym mis Mai 2016. Bydd yr holl fuddion a gronwyd cyn mis Mai 2016 o dan y cynllun presennol yn cael eu diogelu.

Mae'n ymrwymiad gennym i gwblhau'r trefniadau pensiwn, a'r cyflogau ar gyfer y Pumed Cynulliad erbyn mis Mai 2015. Bydd hyn sicrhau bod y rhai sy'n sefyll etholiad yn gwybod cyfanswm y taliad (cyflog sylfaenol a chyfraniad Comisiwn y Cynulliad i'r cynllun pensiwn newydd) i'r Aelodau yn y Pumed Cynulliad.

Ein nod wrth adolygu pensiynau Aelodau'r Cynulliad yw gwneud trefniadau at y dyfodol sy'n deg o ran cyfanswm y costau a rhannu risg, ac sy'n fforddiadwy i drethdalwyr ac i'r Aelodau. Rhaid i'r trefniadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac sy'n effeithio ar bobl Cymru. Gydag amser, bydd y newidiadau yn arbed arian i drethdalwyr ond bydd yn parhau i sicrhau bod y rhai sy'n cael eu hethol i'r Cynulliad yn cael darpariaeth briodol ar gyfer eu hymddeoliad.

O ganlyniad i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a basiwyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror 2013, mae darpariaethau Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (Deddf 2013), sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i gynllun pensiwn y sector cyhoeddus, yn gymwys i gynllun Aelodau'r Cynulliad. Felly, rhaid inni ddilyn llawer o'r gofynion yn Neddf 2013 wrth gyflwyno unrhyw newidiadau. Nid yw'r cynlluniau ar gyfer Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban yn destun gofynion Deddf 2013. Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer y cynllun newydd, bydd angen gwneud newidiadau i'r trefniadau llywodraethu presennol. Byddwn yn parhau i drafod y materion hyn gyda Chomisiwn y Cynulliad, ymddiriedolwyr y cynllun presennol a Thrysorlys Ei Mawrhydi. Byddwn hefyd yn parhau i gael cyngor cyfreithiol ac actiwaraidd priodol wrth i ni gwblhau ein gwaith yn y maes cymhleth hwn, fel ein bod yn datblygu cynllun sy'n gadarn, yn deg ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Sandy Blair CBE



Cadeirydd / Chair

Y Bwrdd Taliadau

Diben yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn disgrifio prif nodweddion y cynllun pensiwn yr ydym yn ei gynnig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a etholir o 2016 ymlaen. Byddwn yn croesawu sylwadau am ein cynigion gan unrhyw un sydd â diddordeb. Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau cyn gwneud ein penderfyniadau terfynol.

Dyma'n trydydd ymgynghoriad ar bensiynau Aelodau'r Cynulliad. Roedd yr ymgynghoriad diweddaraf, ym mis Ebrill 2014, yn gofyn cyfres o gwestiynau manwl, yn esbonio ein rhesymeg dros ystyried y gwahanol opsiynau, ac yn rhoi costau dangosol ar gyfer yr opsiynau hynny.¹ Yn Atodiad A, ceir crynodeb o'r pum ymateb a gawsom i'r ymgynghoriad. Daeth dau o'r rheini o grwpiau plaid, roedd un gan ymddiriedolwyr y cynllun presennol ac roedd dau gan Aelodau Cynulliad unigol. Nid oedd yr ymatebion yn unfrydol, ac roedd nifer yn codi cwestiynau pellach.

Rydym yn bwriadu gwneud y penderfyniadau terfynol yn y maes hwn erbyn mis Mai 2015.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys:

- a. prif nodweddion y cynllun pensiwn newydd arfaethedig;
- b. enghreifftiau i ddangos sut y gallai'r cynllun pensiwn newydd weithio. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain;
- c. crynodeb o'r trefniadau presennol a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Aelodau Seneddol San Steffan;
- d. crynodeb o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ym mis Ebrill;
- e. y cyngor actiwaraid proffesiynol sy'n sail i'n cynigion.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 15 Awst 2014.

Dylech anfon eich sylwadau at Glerc y Bwrdd Taliadau:

Taliadau@cymru.gov.uk

¹ Ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol, Ebrill 2014
<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mqConsultationDisplay.aspx?id=125&RPID=1003431971&cp=yes>

Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013

2. Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (Deddf 2013) sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cynllun Aelodau'r Cynulliad. Mewn llawer o feysydd, rydym wedi'n rhwymo gan Ddeddf 2013 a fydd felly'n rheoli rhai o ofynion y cynllun pensiwn newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. O ganlyniad i Ddeddf 2013, ni all unrhyw gynllun pensiwn newydd fod yn gynllun sy'n seiliedig ar gyflog terfynol. Rydym wedi trafod ein cynigion gyda Thrysorlys ei Mawrhydi i sicrhau bod y trefniadau yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2013, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Cyflwyno cynllun enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbriso

3. Caiff cynllun presennol y Cynulliad ei ddiwygio i gyflwyno categori budd newydd, sef enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbriso (CARE), ar gyfer gwasanaeth o ddechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016 ymlaen.² Bydd y trefniant newydd yn gymwys i'r pensiwn a'r buddion atodol a gyfrifir drwy gyfeirio at gyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad. Mae trefniadau pensiwn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r cyflogau ychwanegol a gaiff deiliaid swyddi, a'r manteision ategol cysylltiedig sy'n cael eu cyfrifo drwy gyfeirio at y cyflogau ychwanegol hyn, eisoes ar sail CARE. Bydd hyn yn parhau, ond bydd y gyfradd gronniadau yn newid er mwyn bod yn gyson â'r cynllun newydd. Bydd newidiadau i rai o'r buddion cysylltiedig, megis marwolaeth mewn swydd a phensiwn priod/partner yn achos Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi.

Costau

4. Mae strwythur ein cynllun arfaethedig wedi'i ddatblygu er mwyn cyflawni'r canlynol:
 - Gwneud trefniadau pensiwn teg a fforddiadwy ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol;
 - Sicrhau bod y risgiau, sy'n rhan annatod o gynllun pensiwn, yn cael eu rhannu'n deg ac yn gyfartal rhwng Aelodau'r Cynulliad a threthdalwyr;
 - Sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cyfateb i newidiadau ehangach yn y sector cyhoeddus a gofynion Deddf 2013;
 - Sicrhau bod cyfanswm costau'r taliadau yn briodol i drethdalwyr;
 - Diogelu buddion a gronnyd hyd yn hyn.
5. Mae diwygiadau Llywodraeth y DU i bensiynau'r sector cyhoeddus yn anelu at gymhareb o 60:40 ar gyfartaledd o ran y gost i gyflogwyr a chyflogeion. Mewn rhai o gynlluniau newydd y sector cyhoeddus, bydd modd i gyflogeion wneud cyfraniadau ar gyfraddau gwahanol er mwyn cyflawni'r gymhareb honno. Yn gyffredinol, golyga hynny y bydd cyflogeion ar gyflogau uwch yn talu cyfradd uwch na chyflogeion ar gyflogau is. Er bod cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad lawer yn uwch na chyflog cyfartalog gweithwyr yn y sector cyhoeddus, mae holl Aelodau'r Cynulliad yn

² Mae esboniad llawn yn Atodiad B.

cael yr un cyflog sylfaenol. Felly, ni ystyrir ei bod yn briodol gwneud trefniadau yng nghynllun pensiwn newydd Aelodau'r Cynulliad ar gyfer gwneud cyfraniadau ar gyfraddau gwahanol.

6. Mae'r costau o dan gynllun pensiwn cyflog terfynol presennol Aelodau'r Cynulliad wedi'u dyrannu tua 70:30 yn seiliedig ar gyfraddau presennol y cyflogwr a chan ddefnyddio cyfradd gyfraniadau Aelodau'r Cynulliad, sef 10% o'u cyflog sylfaenol. Mae hyn yn sicrhau cyfradd groniadau pensiwn o un rhan o ddeugain ar gyfer y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad. Cyfanswm cost y cynllun pensiwn presennol yw tua 33.8% o gyflogres Aelodau'r Cynulliad. Gan fod Aelodau'r Cynulliad, ar y cyfan, yn talu 10% o'u cyflog tuag at y cynllun, cyfraniad Comisiwn y Cynulliad, hynny yw, y gyfran a delir gan drethdalwyr, yw tua 23.8%. Mae'r gost gyffredinol o ddarparu buddion y cynllun presennol yn debygol o gynyddu fwy fyth yn y dyfodol o ganlyniad i newidiadau yn y rhagdybiaethau a wnaed gan actiwari'r cynllun sy'n ymwneud â disgwyliad oes a chyfraddau disgownt gwirioneddol sy'n uwch na'r mynegai prisiau defnyddwyr. Bydd canlyniadau'r prisiant teirblynyddol, a ddisgwylir yn ddiweddarach yn 2014, yn rhoi gwybodaeth inni am sefyllfa ddiweddaraf y cynllun presennol. Rydym yn gweithio gyda'r ymddiriedolwyr i gael prisiad cynharach gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD). Bydd hyn yn golygu bod y penderfyniadau terfynol am y cynllun newydd yn seiliedig ar y wybodaeth gywiraf a diweddaraf sydd ar gael.
7. Cynigiwn newid y gymhareb gostau i 60:40, fel bod mwy o gyfran yn cael ei hysgwyddo gan Aelodau'r Cynulliad, a bod llai o gostau pensiwn i drethdalwyr. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a'r cyfrifiadau actiwaraidd presennol, mae'n debygol y bydd cyfradd gyfraniadau cyflogeion yn codi o'r gyfradd bresennol, sef 10%, i tua 11% o'r cyflog. Fodd bynnag, dylid nodi mai dangosol yn unig yw lefel y costau a'r cyfraniadau ar hyn o bryd. Gallai costau cyffredinol y cynllun newydd, y gost o ddiogelu hawliau cronedig o dan yr hen gynllun, a'r costau diogelwch trosiannol, fod yn uwch neu'n is na'r amcangyfrif presennol erbyn yr adeg y caiff y cynllun newydd ei gyflwyno ym mis Mai 2016.
8. Er mai'r fframwaith yn y ddogfen hon yw sail ein penderfyniadau ar hyn o bryd, dylid nodi hefyd y gallai costau'r cynllun amrywio yn sgil prisiadau teirblynyddol yn y dyfodol, ac na fyddant o reidrwydd yn cael eu rhannu yn yr un modd, oherwydd y ffordd y mae terfyn uchaf a therfyn isaf y costau yn gweithio. Diben y ddarpariaeth ar gyfer terfyn uchaf a therfyn isaf yw diogelu trethdalwyr rhag costau cynyddol ac i sicrhau sefydlogrwydd cyffredinol yng nghyfraddau cyfraniadau aelodau'r cynllun. Mae'n ein gwaith yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau o ran costau sydd ar gael inni ar hyn o bryd.

Diogelu buddion a gronnwyd

9. Bydd buddion pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a gronnwyd cyn mis Mai 2016, yn cael eu diogelu. Mae hyn yn cynnwys:
 - yr holl fuddion pensiwn (gan gynnwys buddion priod/partner) a gronnwyd cyn mis Mai 2016 o dan y cynllun cyfredol;

- unrhyw fuddion pensiwn a gronnwyd sy'n gysylltiedig â buddion pensiwn a drosglwyddwyd o rywle arall i'r cynllun cyn mis Mai 2016, er enghraifft 'trosglwyddiadau i mewn' neu gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol;
 - y cytundebau yn y cynllun pensiwn presennol o dan y 'rheol 80' (gweler isod);
 - buddion pensiwn a gronnwyd cyn mis Mai 2016 yn achos lwfansau deiliaid swyddi.
10. Nid yw buddion cyfandaliad marwolaeth mewn swydd yn rhan o'r buddion pensiwn a gronnwyd. Bydd y newid arfaethedig yn y gyfradd buddion cyfandaliad marwolaeth mewn swydd, y cyfeirir atynt yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, yn gymwys i bob Aelod Cynulliad pan fydd y cynllun pensiwn newydd yn dechrau ym mis Mai 2016.
11. Dyddiad dechrau arfaethedig y cynllun pensiwn CARE newydd fydd dyddiad dechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016. Heblaw am y rhai sydd â diogelwch trosiannol, bydd Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad yn cronni buddion o dan y cynllun cyflog terfynol presennol yn unig tan ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, ym mis Ebrill 2016.
12. Yn unol â gweddill y sector cyhoeddus, cedwir y cysylltiad rhwng y cyflog terfynol â'r buddion a gronnwyd o dan yr hen gynllun cyflog terfynol. Golyga hyn, er na fydd modd cronni gwasanaeth pensiynadwy pellach o dan yr hen gynllun, caiff pensiwn yr Aelodau ar gyfer eu cyfnod o wasanaeth yn yr hen gynllun ei gysylltu â'u cyflog terfynol pan fyddant yn ymddeol neu'n peidio â bod yn Aelodau Cynulliad. O dan y cynllun presennol, caiff y cyflog terfynol ei gyfrif ar sail y cyflog gwirioneddol a dalwyd yn y 12 mis cyn i'r Aelod adael y Cynulliad, boed drwy ymddeoliad neu adeg etholiad, ni waeth a yw wedi gweithio y tu hwnt i'r oedran pensiwn arferol ai peidio. Yn achos yr Aelodau hynny sy'n dewis peidio â chymryd eu hawl llawn ar sail cyflog sylfaenol, caiff y gwasanaeth ei gwtogi ar sail pro-rata. Nid oes cysylltiad â'r cyflog terfynol a gronnwyd o dan gynllun presennol CARE ar gyfer deiliaid swyddi oherwydd natur y cynllun hwnnw.
13. Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r 'rheol 80' yn y cynllun presennol yn golygu y gall aelodau dynnu pensiwn os ydynt wedi cael eu pen-blwydd yn 60 ac os oes ganddynt 20 mlynedd o wasanaeth cymwys (cyfanswm o 80 mlynedd). Nid yw'r swm hwn yn destun gostyngiad actiwaraid. Dim ond i aelodau a ymunodd â'r cynllun cyn 1 Ebrill 2007 y mae'r rheol 80 yn gymwys. Mae graddfa symudol ar gyfer cyfnodau o wasanaeth rhwng 15 ac 20 mlynedd. Mae oedran aelod hefyd yn effeithio ar y gostyngiad a gymhwysir.
14. Yn ymarferol, golyga hyn bod y rhai a oedd yn aelodau cyn 1 Ebrill 2007 nad yw eu hoed a'u gwasanaeth cymwys yn cyrraedd 80, ond sy'n uwch na 66 (isafswm oedran 50, isafswm gwasanaeth 16 mlynedd) yn dal i elwa ar ostyngiad actiwaraid is. Yn achos y rhai a ddaeth yn aelodau ar ôl 1 Ebrill 2007, caiff ffactor safonol o ostyngiad actiwaraid ei gymhwyso, ac mae hwnnw hefyd yn gysylltiedig ag oedran. Ym mhob achos, mae'r ffactorau sydd i'w cymhwyso yn cael eu darparu gan actiwari'r cynllun, ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel bod y trefniant hwn, ar y cyfan, yn niwtral o ran cost.

15. Ni fydd darpariaeth rheol 80 yn y cynllun newydd. Felly, ni fydd y trefniant hwn yn gymwys i'r darpariaethau ymddeoliad cynnar o dan y cynllun newydd. Fodd bynnag, yn achos yr Aelodau hynny a oedd yn aelodau o'r gronfa bensiwn cyn 1 Ebrill 2007, bydd cyfnod o wasanaeth ar ôl mis Mai 2016 yn dal i fod yn berthnasol wrth gyfrif yr elfen gwasanaeth cymwys o'r rheol 80.

Cyfanswm y taliadau

16. Byddwn yn cadarnhau'r pecyn llawn o daliadau ar gyfer Aelodau'r Pumed Cynulliad (cyflogau a chyfraniad trethdalwyr at y cynllun pensiwn newydd) ym mis Mai 2015, flwyddyn cyn etholiad nesaf y Cynulliad. Rydym wedi cyflwyno'r opsiynau pensiwn yn gynharach, ond byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar yr opsiynau ar gyfer cyflogau yn y Cynulliad nesaf o fis Medi 2014 ymlaen.

Methodoleg

17. Rydym wedi cael cyngor cyfreithiol gan Wragge and Co. a chyngor actiwaraid gan Price Waterhouse Coopers (PwC) wrth lunio'r cynigion hyn. Wrth benderfynu ar ein cynllun amlinellol comisiynwyd Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD), sef yr actiwariad i gynllun presennol yr Aelodau, i lunio rhestr fanwl o'r costau ac enghreifftiau o'n cynigion.
18. Bu'n rhaid inni wneud rhagdybiaethau wrth inni lunio enghreifftiau ac amcangyfrif o'r costau. Mae'r fethodoleg a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i gostio'r cynllun arfaethedig yn gyson â'r rheini a ddefnyddiwyd gan GAD ar gyfer costio diwygiadau i gynlluniau pensiwn eraill yn y gwasanaethau cyhoeddus. Y data aelodaeth a ddefnyddiwyd i benderfynu ar y costau yw'r data aelodaeth lawn mwyaf diweddar a ddefnyddiwyd gan yr actiwariad i brisio'r cynllun presennol. Mae rhagdybiaethau wedi'u gwneud ynghylch materion fel y newid ym mhroffil aelodau'r cynllun o ran oed, a'r trosiant yn sgil yr etholiad ym mis Mai 2016. Mae'r rhagdybiaethau o ran y newid yn yr Aelodau yn unol â'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiau'r cynllun presennol yn 2011. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad C.
19. Mae'r diwygiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gwneud ar sail y canllawiau yng nghynllun cyfeirio Trysorlys Ei Mawrhydi. Rydym wedi talu sylw i'r rhain, ac i'r newidiadau sy'n debygol o gael eu gwneud i gynlluniau tebyg, yn enwedig y trefniadau ar gyfer Aelodau Senedd y DU, a Chynulliad Gogledd Iwerddon.
20. Mae cost elfen y 'cyflogwr' o gynllun pensiwn presennol Aelodau'r Cynulliad wedi'i gapio, fel na all fynd yn uwch na 23.8%, y gyfradd bresennol. Mae'n gynllun a reolir yn dda, a hyd yma ni fu angen inni ailystyried y cap hwn ar y costau, nac ystyried addasu cyfraniadau neu fuddion cyflogeion; pethau y gallai fod angen inni eu gwneud pe bai diffyg yn y cynllun. Pe byddai'r gost o ddarparu'r buddion pensiwn presennol yn cynyddu yn y tymor hir, gallai fod angen gwneud rhywfaint o addasiadau yn y dyfodol, naill ai drwy addasu'r buddion neu drwy addasu cyfraddau cyfraniadau rhai aelodau o'r cynllun. Bydd canlyniadau'r prisiau teirblynyddol, a ddisgwyli'r yn ddiweddarach yn 2014, yn rhoi gwybodaeth inni am sefyllfa ddiweddaraf y cynllun presennol.

21. Mae ein cynigion yn seiliedig ar y canlynol:

- Ein man cychwyn oedd y dylai costau'r cynllun newydd fod o fewn y terfynau a bennwyd yng Nghynllun Cyfeirio Trysorlys Ei Mawrhydi³. Bydd cyfraddau cyfraniadau Aelodau'r Cynulliad tua 11%;
- bydd y gost i'r 'cyflogwr' yn is na'r 23.8% presennol i sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy yn y tymor hir;
- y gyfradd groniadau yng nghynllun cyfeirio'r Trysorlys yw 1/60 o'r cyflog; rydym yn cynnig cyfradd groniadau uwch, sef 1/50 o'r cyflog;
- rhennir costau'r cynllun 60:40 rhwng y cyflogwr a'r cyflogai, yn unol â'r trefniadau ar draws rhan helaeth o'r sector cyhoeddus, a anelwyd at ostwng y gost i drethdalwyr;
- yn unol â Deddf 2013, bydd trefniant terfyn uchaf a therfyn isaf i sicrhau sefydlogrwydd o ran cyfraddau cyfraniadau ac i ddiogelu trethdalwyr rhag cynnydd sylweddol mewn cost;
- bydd y gyfradd ailbrisiu yn unol â'r cynnydd yn y mynegai prisiau defnyddwyr;
- bydd diogelwch trosiannol ("grandfathering") ar gyfer y rhai a oedd o fewn deng mlynedd o'r oedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 (hynny yw, aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar y dyddiad hwn);
- Bydd buddion pensiwn marwolaeth mewn swydd a phriod/partner sy'n goroesi ar gael o dan y cynllun newydd, ond ar lefelau is o gymharu â'r cynllun presennol. Rydym yn cynnig pensiwn i'r sawl sy'n goroesi o hanner pensiwn yr aelod, a phensiwn marwolaeth mewn swydd o ddwywaith y cyflog.

³ Trysorlys Ei Mawrhydi, [*Public service pensions: good pensions that last*](#)

Y prif fuddion

22. Mae'r tabl canlynol yn nodi prif fuddion y cynllun pensiwn arfaethedig. Yn nhudalennau nesaf y ddogfen hon rydym yn esbonio sut y lluniwyd y cynigion hyn.

Y prif fuddion	
Math o fudd	Enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbriso
Ailbrisiad	Mynegai prisiau defnyddwyr
Cynnydd mewn pensiynau	Mynegai prisiau defnyddwyr
Y gyfradd groniadau flynyddol	1/50 o'r enillion
Yr oedran ymddeol arferol	65 oed i bawb neu oedran ymddeol y wladwriaeth os yw hwnnw'n uwch
Pensiwn y priod/partner sy'n goroesi (yn achos marwolaeth pan delir pensiwn eisoes)	1/2 y pensiwn gwirioneddol sy'n daladwy adeg marwolaeth ⁴
Pensiwn y priod/partner sy'n goroesi (yn achos marwolaeth mewn swydd)	1/2 y pensiwn a fyddai wedi cronni erbyn yr oedran ymddeol arferol ⁵
Pensiwn y priod/partner sy'n goroesi (yn achos marwolaeth pensiwnwr gohiriedig)	1/2 y pensiwn gohiriedig sy'n daladwy adeg marwolaeth ⁶
Cyfandaliad marwolaeth mewn swydd	2 x cyflog
Buddion ymddeoliad oherwydd salwch	Yn unol â threfniadau'r cynllun presennol
Ffactorau cymudo	Yn gyson â'r fethodoleg bresennol
Ymddeoliad cynnar/hwyr	Yn gyson â'r fethodoleg bresennol
Y gyfradd gyfraniadau safonol yn seiliedig ar ragdybiaethau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi	27.6% ⁷
Cyfraniad yr Aelodau yn seiliedig ar ragdybiaethau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi	11.0%
Cyfraniad y 'cyflogwr' yn seiliedig ar ragdybiaethau ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi	16.6%
Cymhareb cyfraniadau'r Aelodau/cyflogwr	60:40
Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol	Mae'r Bwrdd yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno trefniant lle caiff Aelodau Cynulliad wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar sail cyfraniad wedi'i ddiffinio i ychwanegu at gynllun pensiwn 'prynu arian'.

⁴O dan y cynllun presennol, byddai'r priod/partner sy'n goroesi yn cael 5/8 o'r pensiwn gwirioneddol sy'n daladwy adeg y farwolaeth.

⁵O dan y cynllun presennol, byddai'r priod/partner sy'n goroesi yn cael 5/8 o'r pensiwn a fyddai wedi cronni erbyn yr oedran ymddeol arferol.

⁶O dan y cynllun presennol, byddai'r priod/partner sy'n goroesi yn cael 5/8 o'r pensiwn gohiriedig sy'n daladwy adeg y farwolaeth.

⁷Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o'r gost o ddarparu diogelwch trosiannol, sef 1.2% o'r gyflogres am bum mlynedd. Dim ond cost cronniadau'r dyfodol a ddangosir. Nid yw'r ffigurau yn caniatáu ar gyfer y cyfraniadau sydd eu hangen i gael gwared ag unrhyw ddiffyg o ran gwasanaeth yn y gorffennol. Yn llythyr GAD, sydd i'w weld yn Atodiad C, darperir rhagdybiaethau amgen hefyd.

<p>Trefniadau pensiwn ar gyfer deiliaid swyddi</p>	<p>Caiff y buddion a gronnwyd hyd at fis Mai 2016 eu diogelu. Bydd cyflogau pob deiliad swydd yn destun y trefniadau newydd o ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen, gan gynnwys yr Aelodau Cynulliad hynny sy'n gymwys am ddiogelwch trosiannol ("grandfathering").</p>
<p>Diogelwch trosiannol ("grandfathering")</p>	<p>Pum mlynedd o ddiogelwch trosiannol o fis Mai 2016 ymlaen ar gyfer y rhai a oedd o fewn deng mlynedd o'r oedran ymddeol arferol ym mis Ebrill 2012.</p>
<p>Rheol 80</p>	<p>Ar gael yn unig i'r rhai sydd â chyfnod di-dor o wasanaeth o dan y cynllun ers cyn 1 Ebrill 2007 hyd at ddyddiad eu hymddeoliad cynnar.</p>

Ein cynigion

Enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbriso (CARE)

23. Bydd y cynllun newydd, sydd i'w gyflwyno ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, yn gynllun enillion cyfartalog gyrfa wedi'u hailbriso (CARE). Mae cynllun CARE yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng y gost a'r risg i drethdalwyr a'r buddion pensiwn i'r Aelodau Cynulliad.

Gweithredu'r cynllun

24. Caiff y trefniadau newydd eu rhoi ar waith drwy ddiwygio'r cynllun presennol. Rydym wedi ymgynghori â Thrysorlys Ei Mawrhydi, a ddywedodd y byddai'r newidiadau hyn yn golygu cynllun newydd mewn gwirionedd, ac y byddent felly'n destun gofynion Deddf 2013.

Ailbriso a'r cynnydd mewn pensiynau

25. Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyfradd ailbriso gael ei phennu yn unol â newidiadau mewn prisiau (mynegai prisiau defnyddwyr) neu enillion mewn cyfnod penodol. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr mawr y sector cyhoeddus wedi penderfynu dewis cyfradd ailbriso a gyfrifwyd drwy gyfeirio at newidiadau yn y mynegai prisiau defnyddwyr yn hytrach na drwy gyfeirio at newidiadau mewn enillion. Mae'r Bwrdd Taliadau yn cynnig dull tebyg.
26. Bydd unrhyw gynnydd yn y pensiwn hefyd yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr.

Y gyfradd groniadau flynyddol

27. Cymysg a gwrthgyferbyniol oedd yr ymatebion a gawsom i'r cwestiynau am y gyfradd groniadau yn ein hymgyngoriad diweddaraf. Cytunodd pob un y dylid pennu un gyfradd groniadau o dan y cynllun newydd i ysgafnhau'r baich gweinyddol ac i hybu dealltwriaeth. Galwodd un ymatebydd am gadw'r gyfradd groniadau bresennol, sef 1/40, a dywedodd un arall y dylai'r gyfradd groniadau fod yn unol â gweddill y sector cyhoeddus. Mae cynllun cyfeirio Trysorlys Ei Mawrhydi yn cynnwys cyfradd groniadau o 1/60 o'r cyflog. Cyfradd y cynllun ar gyfer Aelodau Seneddol y dyfodol fydd 1/51.
28. Rydym yn cynnig cyfradd groniadau o 1/50 o'r cyflog pensiynadwy. Yn ein barn ni, mae'r gyfradd hon yn gydbwysedd priodol rhwng y gost i drethdalwyr a'r buddion i Aelodau'r Cynulliad. O'i hystyried ochr yn ochr ag agweddau eraill ar ddyluniad y cynllun newydd, mae hefyd yn gyfradd groniadau fforddiadwy. Mae lawer yn fwy hael na chyfradd groniadau rhai cynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus. Credwn fod cyfiawnhad dros hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch am ba hyd y bydd unigolyn yn gwasanaethu fel cynrychiolydd etholedig.

Yr oedran ymddeol arferol

29. Fel rhan o'r broses o ddiwygio cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth y DU wedi pennu mai'r oedran ymddeol arferol fydd naill ai oedran pensiwn y wladwriaeth neu 65 oed, pa un bynnag fydd yr uchaf. Ar hyn o bryd mae oedran pensiwn y wladwriaeth rhywun yn dibynnu ar ei ddyddiad geni a'i ryw. Bwriedir codi oedran pensiwn y wladwriaeth i 65 oed ar gyfer menywod erbyn mis Tachwedd 2018, a bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn codi i 66 oed ar gyfer dynion a menywod erbyn mis Hydref 2020.

30. Mae Deddf Pensiynau 2014 yn darparu ar gyfer adolygu oedran pensiwn y wladwriaeth yn rheolaidd, o leiaf bob pum mlynedd. Nid yw Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn bwriadu adolygu'r amserlenni presennol ar gyfer cydraddoli a chynyddu oedran pensiwn y wladwriaeth, ond gallai hynny newid yn sgil adolygiad yn y dyfodol.⁸

Dyddiad y newid	Oedran pensiwn y wladwriaeth (Dynion a Menywod)
2018	65
2020	66
2026	67

31. Yn unol â gofynion Deddf 2013, yr oedran ymddeol arferol o dan y cynllun pensiwn CARE newydd fydd naill ai 65 oed neu oedran pensiwn y wladwriaeth, pa un bynnag fydd yr uchaf.

Marwolaeth mewn swydd a phensiwn priod/partner sy'n goroesi

32. Bydd pensiynau priod mewn perthynas â hawliau a gronnwyd ar gyfradd y cynllun presennol, sef 5/8 o gyflog yr Aelod. Yn achos yr Aelodau hynny sy'n gymwys i gael diogelwch trosiannol ("grandfathering"), bydd y gyfradd hon yn parhau i fod yn gymwys dros bum mlynedd cyfnod y diogelwch trosiannol ("grandfathering"). Fodd bynnag, bydd newid i'r cyfandaliad marwolaeth mewn swydd i bawb o ddechrau'r Cynulliad nesaf ymlaen, a newid i gyfradd y dyfodol ar gyfer pensiwn y priod/partner sy'n goroesi.
33. Yn ein hymgyngoriad blaenorol, nodwyd yr opsiynau o ran cost yr amryfal fuddion cyfandaliad marwolaeth mewn swydd a phensiynau priod/partner sy'n goroesi. Bryd hynny, cynigiwyd y dylai pensiwn priod/partner sy'n goroesi fod yn 3/8 (37.5%) o bensiwn y sawl sydd wedi marw.
34. Teimlai mwyafrif y rhai a ymatebodd i'n hymgyngoriad y dylid parhau â chyfradd bresennol y cyfandaliad marwolaeth mewn swydd (pedair gwaith y cyflog), a phensiwn priod/partner sy'n goroesi (5/8). Dywedwyd, er bod hyn yn brin, ei fod yn fudd pwysig a oedd yn rhoi sicrwydd i deulu a dibynyddion Aelodau Cynulliad. Ar ôl ystyried yr amrywiol ymatebion i'r ymgynghoriad, a rhinweddau a chostau'r pensiwn marwolaeth mewn swydd a'r pensiwn i oroeswyr, rydym bellach yn cynnig bod lefel y cyfandaliad marwolaeth mewn swydd yn ddwywaith y cyflog, a bod pensiwn y priod/partner sy'n goroesi yn hanner pensiwn blynyddol yr aelod. Er bod rhoi canran uwch o bensiwn i briod/partner sy'n goroesi yn gallu bod yn ddrutach na, er enghraifft, cynyddu'r cyfandaliad marwolaeth mewn swydd i deirgwaith neu bedair gwaith y cyflog, daethom i'r casgliad bod y pensiwn i oroeswyr, ar y cyfan, yn ffordd fwy o priodol o ddarparu ar gyfer teulu aelod sydd wedi marw.
35. Yn ein dogfen ymgynghori ym mis Ebrill 2014, esboniwyd bod y gost o ddarparu buddion marwolaeth mewn swydd yn cynyddu'n gyflym wrth i'r aelodau fynd yn hŷn. Cyflwynwyd nifer o opsiynau posibl y gellid eu defnyddio i gyfyngu ar y budd hwn yn ôl oedran. Amrywiol a gwrthgyferbyniol oedd yr ymatebion i'r agwedd hon ar ein hymgyngoriad: awgrymodd ambell

⁸ State Pension Age timetable, papur polisi Llywodraeth y DU, <https://www.gov.uk/government/publications/state-pension-age-timetable>

un y gallai hyn achosi rhai i beidio â sefyll etholiad; credai eraill y byddai'n gwahaniaethu yn erbyn Aelodau Cynulliad hŷn; ac roedd eraill o blaid y cynnig.

36. Rydym wedi trafod yn fanwl y costau, y cymhlethdodau, a'r materion cydraddoldeb sy'n gysylltiedig â marwolaeth mewn swydd. Ni fyddwn yn cyfyngu ar y buddion marwolaeth mewn swydd yn ôl oedran, nac yn ystyried tapro'r buddion hynny i Aelodau Cynulliad sy'n parhau i wasanaethu ar ôl yr oedran ymddeol arferol, ond bydd y buddion marwolaeth mewn swydd yn dod i ben yn achos Aelodau Cynulliad sy'n parhau i wasanaethu ar ôl cyrraedd 75 oed.

Ffactorau cymudo

37. Mae'r cynllun presennol yn darparu ar gyfer cymudo'r pensiwn am gyfundaliad adeg ymddeol ar delerau sy'n niwtral o ran cost. Gan fod y telerau'n niwtral o ran cost, ni fyddwn yn diwygio'r trefniant hwn, a bydd yn parhau ar delerau tebyg yn y cynllun newydd. Byddwn yn gofyn i ymddiriedolwyr y cynllun sicrhau bod y ffactorau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd gan actiwari'r cynllun.

Ymddeol yn gynnar/hwyr a Rheol 80

38. Bydd y trefniant presennol yn parhau ar gyfer ymddeol yn gynnar ac ymddeol yn hwyr. Byddwn yn diogelu'r buddion a gronnwyd gan aelodau presennol y cynllun cyn mis Mai 2016, o dan y cynllun presennol. Byddwn hefyd yn parhau â'r trefniadau ar gyfer y 'rheol 80', sydd ar gael yn unig i'r rhai hynny sydd wedi bod yn aelodau o'r cynllun am gyfnod di-dor ers cyn 1 Ebrill 2007 hyd at ddyddiad eu hymddeoliad cynnar. Dim ond i aelodau'r cynllun presennol y bydd telerau ymddeoliad cynnar y 'rheol 80' yn gymwys, ac ni fyddant yn gymwys i fuddion CARE a gronnir o fis Mai 2016 ymlaen. Bydd y trefniant presennol ar gyfer ymddeol yn hwyr yn parhau ar delerau tebyg o dan y cynllun newydd.

Hawliau a gronnwyd

39. Bydd y cynllun pensiwn CARE newydd yn dod i rym ar ddiwrnod cyntaf y Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016. O dan y drefn hon, bydd trefniadau'r cynllun cyflog terfynol presennol o ran cronni buddion yn dod i ben (ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol) yn syth cyn i'r cynllun CARE newydd ddod i rym, heblaw yn achos yr Aelodau Cynulliad hynny sy'n gymwys i gael diogelwch trosiannol.
40. Bydd hawliau cronedig Aelodau Cynulliad sydd wedi cyfrannu at fuddion ac wedi'u cronni o dan y cynllun pensiwn presennol cyn mis Mai 2016, yn cael eu diogelu, gan gynnwys unrhyw hawliau cronedig sy'n deillio o gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol, 'trosglwyddo i mewn', ac o dan gynllun CARE presennol deiliaid swyddi. Dyddiad dechrau'r cynlluniau CARE newydd ar gyfer rhan helaeth o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cynllun pensiwn Senedd y DU, fydd 1 Ebrill 2015. Caiff buddion a gronnwyd o dan y cynlluniau cyflog terfynol blaenorol eu diogelu tan y dyddiad hwnnw. Bwriad y Bwrdd Taliadau yw dechrau'r cynllun pensiwn CARE newydd ar ddyddiad dechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016. Golyga hyn y bydd Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad yn cronni buddion o dan y cynllun cyflog terfynol presennol tan ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, ym mis Ebrill 2016, hynny yw am ryw flwyddyn yn ychwanegol o gymharu â rhan helaeth y sector cyhoeddus.

Diogelwch trosiannol ('grandfathering')

41. Diben diogelwch trosiannol ('grandfathering') yw diogelu aelodau hŷn o'r cynllun rhag i newidiadau pensiwn effeithio'n anghymesur arnynt. Nod y diwygiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus yw sicrhau na fydd unrhyw newid i oedran pensiwn aelodau o'r cynllun sydd o fewn cyfnod penodedig i'w hoedran ymddeol arferol, ac na fydd unrhyw ostyngiad yn y buddion pensiwn y maent yn eu cael (gan gynnwys pensiynau priod/partner).
42. Yn ein dogfen ymgynghori flaenorol, cynigiwyd y byddai'r rheini sydd, ym mis Ebrill 2012, o fewn deng mlynedd i'w hoedran ymddeol yn cael pum mlynedd o ddiogelwch trosiannol o ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen. Rydym yn parhau o'r farn bod y dyddiad hwn a'r cyfnod o bum mlynedd o ddiogelwch trosiannol yn briodol. Bydd Aelodau'r Cynulliad presennol a gaiff eu hail-ethol i'r Pumed Cynulliad (o fis Mai 2016 ymlaen) ac a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012, yn parhau i gronni buddion o dan delerau'r cynllun cyflog terfynol presennol drwy gydol y Pumed Cynulliad. Yr eithriad i hyn fydd eu hawl i fuddion marwolaeth mewn swydd ar ffurf cyfandaliad a fyddai ar y strwythur buddion newydd. Ni fydd Aelodau Cynulliad sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer diogelwch trosiannol ac sy'n dal swydd yn y Pumed Cynulliad, yn cael diogelwch trosiannol ar gyfer yr elfen honno o'u pensiwn sy'n gysylltiedig â bod yn ddeiliad swydd. Bydd y rhan honno o'u taliad ar yr un telerau – er enghraifft y gyfradd groniadau a phensiynau priod/partner – â rhai'r Aelodau Cynulliad nad ydynt yn destun diogelwch trosiannol.
43. Ni fydd diogelwch trosiannol yn parhau y tu hwnt i bum mlynedd y Pumed Cynulliad ym mis Mai 2021. Rydym yn cynnig y cyfnod penodol hwn o ddiogelwch trosiannol am nad yw'n anarferol i Aelodau Cynulliad barhau i wasanaethu y tu hwnt i'r oedran ymddeol arferol. Felly, gallai pennu cyfnod penagored o ddiogelwch trosiannol i Aelodau Cynulliad cymwys achosi costau ychwanegol sylweddol, a gallai'r Aelodau Cynulliad eraill fod yn ysgwyddo baich annheg o gostau. Yn ein barn ni, mae bod â chyfnod penodol o ddiogelwch trosiannol yn sicrhau bod cydbwysedd briodol rhwng y costau a'r buddion.
44. O ddechrau'r Chweched Cynulliad ymlaen, bydd holl aelodau cynllun y Cynulliad yn cronni buddion at y dyfodol o dan reolau'r cynllun newydd.
45. Bydd cyfradd pensiynau priod/partner Aelodau Cynulliad sy'n gymwys am ddiogelwch trosiannol yn cael eu diogelu ar y gyfradd o 5/8 sy'n gymwys o dan y cynllun cyflog terfynol presennol dros dymor y Pumed Cynulliad (neu bum mlynedd o 1 Mai 2016 ymlaen os bydd yn hirach). Am na fydd yr hawl i fuddion marwolaeth mewn swydd yn destun diogelwch trosiannol, bydd y newidiadau hyn, felly, yn gymwys i'r holl Aelodau Cynulliad mewn swydd ar ddiwrnod cyntaf y Pumed Cynulliad (gweler uchod).
46. O ystyried cost y diogelwch trosiannol ac er mwyn darparu buddion sy'n weddol gyfartal ar gyfer aelodau hŷn ac iau y cynllun, nid yw'r Bwrdd Taliadau yn cynnig unrhyw dapro ychwanegol o'r darpariaethau trosiannol.
47. Mae'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i lywio ein penderfyniad yn y maes hwn yn dangos y byddai gan 43% o'r Aelodau hawl i ddiogelwch trosiannol. Oedran cyfartalog yr aelodau hynny yw 66 ac

efallai y bydd cyfran sylweddol yn gadael y Cynulliad yn yr etholiad nesaf. Mae'r tybiaethau trosiant a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2011 yn awgrymu mai dim ond tua 17% o'r Aelodau a fyddai â hawl i ddiogelwch trosiannol ar ôl etholiad 2016. Rydym yn cydnabod bod y lefelau trosiant yn amrywio o etholiad i etholiad, ac y bydd hyn yn effeithio at gost y diogelwch trosiannol. Serch hynny, ar sail y rhagdybiaethau hyn, amcangyfrifir bod y gost o ddarparu'r diogelwch arfaethedig hwn tua £250,000 - tua 1.2% o gyfanswm y gyflogres am bum mlynedd (hynny yw £40,000 y flwyddyn). Dim ond i gost y diogelwch trosiannol yn y dyfodol y mae'r ffigur hwn yn berthnasol, ac nid yw'n cynnwys unrhyw gyfraniadau ychwanegol y gall fod angen eu gwneud i ddiogelu buddion a gronwyd, pe byddai prisiadau actiwaraid yn y dyfodol (gan gynnwys prisiad 2014) yn gwneud y rhain yn ofynnol.

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a throsglwyddo i mewn

48. O dan y cynllun pensiwn cyflog terfynol presennol, gall Aelodau'r Cynulliad ddewis cynyddu'r buddion sy'n daladwy adeg eu hymddeoliad drwy dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a/neu drwy drosglwyddo gwerth buddion pensiwn sy'n deillio o gyflogaeth flaenorol. Mae cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a throsglwyddo i mewn yn galluogi Aelodau'r Cynulliad i brynu blynyddoedd ychwanegol o gredyd gwasanaeth, na fydd, o reidrwydd, yn adlewyrchu hyd eu gwasanaeth fel Aelodau Cynulliad. Mae risg ariannu ynghlwm wrth yr opsiwn hwn ar gyfer y cynllun pensiwn yn y dyfodol.
49. Roedd rhai o'r ymatebion i'n hymgyngoriad ym mis Ebrill o blaid parhau â'r cyfleuster presennol i wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu cyfleuster cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol fel rhan o'r cynllun pensiwn CARE arfaethedig newydd. Gallai gwneud hynny gynyddu'r risg ariannol, y cymhlethdodau gweinyddol a'r gost o weithredu'r cynllun. Mae amrywiaeth o opsiynau eraill ar gael y tu hwnt i gynlluniau pensiwn galwedigaethol lle y gall unigolion gynyddu eu buddiannau pensiwn – yn enwedig drwy bensiynau buddsoddi personol (SIPP). Mae pensiynau SIPP ar gael yn eang, a gellir eu teilwra i anghenion penodol pob unigolyn.
50. Rydym yn parhau o'r farn na ddylai'r cynllun pensiwn CARE newydd gynnwys cyfleuster naill ai i brynu blynyddoedd ychwanegol o gredyd gwasanaeth na chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i'w talu ar sail cyfraniadau wedi'u diffinio. Hefyd, ni chaniateir trosglwyddo symiau i'r cynllun newydd o gynlluniau pensiwn eraill.
51. Gyda'r rhan fwyaf o gynlluniau'r sector preifat, dim ond ar sail cyfraniad wedi'i ddiffinio y gellir gwneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol. Mae hynny'n golygu y byddai cronfa cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yr Aelod, ar sail cyfraniadau wedi'u diffinio, ar gael ar adeg ei ymddeoliad er mwyn sicrhau pensiwn ychwanegol ond ni fyddai unrhyw sicrwydd o ran lefel y buddion ychwanegol a gaiff eu darparu. Gwneir hyn fel arfer drwy brynu blwydd-dal gan yswiriwr. Byddwn yn trafod gyda Chomisiwn y Cynulliad sut y gellid sefydlu a gweinyddu cynllun o'r fath, fel y gall yr Aelodau hynny sy'n awyddus i wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol wneud hynny. Ni fydd cyfraniad cysylltiedig gan y 'cyflogwr'.

Atodiad A: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol

Dyraniad costau

1. A ddylai'r cynllun ailbriso enillion arfaethedig (CARE) newydd i Aelodau'r Cynulliad ddilyn trywydd cynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus, gydag Aelodau'r Cynulliad yn talu cyfran uwch o'r gost na'r drefn bresennol?

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cydnabod y dylid gweithredu'r cynllun CARE arfaethedig newydd, yn unol â'r newidiadau sy'n digwydd yng nghynlluniau pensiwn eraill y sector cyhoeddus.

Roedd yr ymatebion hefyd yn crybwyll, heb ddealltwriaeth o gynigion cyffredinol y pecyn taliadau, gan gynnwys cynigion cyflog, y byddai'n anodd rhoi enghraifft ymarferol o'r cynigion pensiwn.

2. Faint y dylai'r Comisiwn ei gyfrannu at gynllun pensiwn Aelod fel canran o gyfanswm taliadau'r Aelod?

Roedd nifer o'r farn y byddai 25% yn ffigur teg o ran cyfraniadau Comisiwn y Cynulliad i'r cynllun pensiwn. Fodd bynnag, soniodd yr ymatebion bod angen deall y pecyn cyffredinol o daliadau cyn penderfynu ar ffigur priodol.

3. Sut y dylid rhannu cost gyffredinol y cynllun ailbriso enillion newydd rhwng Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad, yn eich barn chi?

Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd o'r farn y dylid dilyn cynlluniau eraill y sector cyhoeddus, gan symud tuag at raniad o 60/40.

Cyfraddau croniadau ac ailbriso

4. Beth yw eich barn chi ar y cynnig y dylai'r cynllun pensiwn ailbriso enillion newydd gael un gyfradd groniadau ar gyfer holl Aelodau'r Cynulliad?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylid mabwysiadu un gyfradd groniadau yn y cynllun CARE newydd, yn unol â chynlluniau eraill, ac er mwyn cadw'r costau gweinyddol i lawr. Gofynnodd un ymatebydd a oedd y Bwrdd wedi ystyried caniatáu i'r Aelodau Gronni ar raddfa uwch os oedd yr Aelodau'n fodlon talu am y gyfradd uwch honno eu hunain, heb gost i Gomisiwn y Cynulliad.

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

5. A ddylem ganiatáu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i'r cynllun newydd?

Roedd pob un a ymatebodd o'r farn y dylai Aelodau'r Cynulliad cael y cyfle i wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yn y cynllun newydd. Mae pob Aelod Cynulliad yn wynebu etholiad, a'r posibilrwydd o golli eu seddau, bob pum mlynedd. Mewn rhai achosion, efallai na fydd cyfle i ddychwelyd i'w galwedigaeth flaenorol. Felly, mae'n bosibl na fyddant yn gallu cronni digon o bensiwn os diddymir y gallu i brynu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol.

Buddion marwolaeth mewn swydd

6. Yn eich barn chi, beth yw'r gyfradd briodol o ran budd marwolaeth mewn swydd fel swm o'r cyflog sylfaenol (a, lle bo hynny'n berthnasol, cyflogau ychwanegol deiliaid swyddi) y dylid ei chynnwys yng nghynllun pensiwn ailbriso enillion Aelodau'r Cynulliad?

Roedd yr holl ymatebwyr o'r farn bod marwolaeth mewn swydd, er mor brin ydoedd, yn fudd pwysig iawn, ac na fyddai cyfiawnhad dros y newidiadau arfaethedig iddo. Credai llawer, gan nad yw oedran yn rhwystr i ddod yn Aelod Cynulliad, na ddylid gwahaniaethu yn erbyn Aelodau Cynulliad hŷn drwy roi llai o fuddion iddynt na'u cydweithwyr iau.

7. A ddylai'r oedran ymddeol arferol fod yn 'derfyn' ar gyfer bod yn gymwys i gael buddiannau marwolaeth mewn swydd? Os felly, pa fath o dapro ddylid ei ddarparu ar gyfer aelodau rhwng oedran ymddeol arferol a 75 oed?

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Teimlai llawer na ddylid cyflwyno terfyn oherwydd ni fyddai'n gymhellant i ymgeiswyr posibl ddod yn Aelodau Cynulliad, a byddai'n gwahaniaethu yn erbyn Aelodau Cynulliad hŷn.

Roedd eraill o blaid terfyn a thapro. Roedd rhai yn cefnogi cynigion y Bwrdd yn gyffredinol.

Pensiwn priod/partner sy'n goroesi

8. Yn eich barn chi, beth yw'r gyfradd briodol ar gyfer pensiwn priod/partner sy'n goroesi?

Dywedodd pawb a ymatebodd y dylai'r budd hwn aros yn y cynllun newydd, a dywedodd un ymatebydd bod y gyfradd bresennol, sef 5/8, yn briodol.

Diogelwch trosiannol: Hawliau a gronnwyd

9. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig y dylid gweithredu'r cynllun pensiwn ailbriso enillion newydd i'w alinio â dechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016, yn hytrach na mis Ebrill 2015 fel sy'n berthnasol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus?

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno ag awgrym y Bwrdd y dylai'r hawliau pensiwn presennol a gronnwyd gael eu diogelu. Ategodd rhai'r pwysigrwydd y dylai'r diogelwch hwn gynnwys unrhyw hawliau sydd gan aelodau sydd wedi trosglwyddo cyfraniadau pensiwn o rywle arall i'r cynllun.

Dywedodd pob un mai mis Mai 2016 (dyddiad dechrau'r Cynulliad newydd) yw'r dyddiad priodol i gyflwyno'r cynllun CARE newydd, oherwydd dylai'r Aelodau Cynulliad presennol gadw eu hawliau cronedig tan ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad.

10. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch a ddylid cadw'r cysylltiad rhwng cyflog terfynol â'r buddiannau a gronnwyd gan Aelodau o dan y cynllun presennol?

Dywedodd un bod cynigion y Bwrdd Taliadau o ran y Grant Adsefydlu yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ystyried y cynigion hyn, yn enwedig Aelodau o fewn rhai blynyddoedd i'w hoedran ymddeol.

Dywedodd pob un a ymatebodd y dylid cadw'r cysylltiad â'r cyflog terfynol fel y mae mewn manau eraill ym mhensiynau'r gwasanaethau cyhoeddus.

Diogelwch trosiannol ('grandfathering')

11. Ai opsiwn a) neu opsiwn b) sydd fwyaf priodol yn eich barn chi?

